

Cofnod Cyfarfod Arbennig Awdurdod S4C

10 Ionawr 2013, Stadiwm Swalec, Caerdydd

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Dyfrig Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Hefyd yn Bresennol:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

1. Cymeradwyo'r Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC

1.1 Cyflwynodd PW fersiwn ddiwygiedig o'r Cytundeb Gweithredu yn cynnwys newidiadau sydd wedi eu hymgorffori yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Ymddiriedolaeth y BBC. Roedd mwyafrif y newidiadau yn deillio o sylwadau a wnaed gan randdeiliaid fel rhan o'r broses ymgynghori.

1.2 Cyflwynwyd dogfen yn crynhoi'r prif newidiadau ers mis Rhagfyr a nodwyd y newidiadau canlynol:

- Eglurwyd bod y cytundeb bellach yn diogelu annibyniaeth weithredol S4C yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheoli.
- Roedd nifer o gyfeiriadau wedi eu cynnwys i esbonio mewn modd mwy clir y berthynas rhwng atebolrwydd statudol S4C a'r trefniant atebolrwydd yn y cytundeb gweithredu.
- Roedd y cymalau yn ymwneud â phwrpasau cyhoeddus darlledwyr cyhoeddus wedi eu diwygio i nodi bod S4C a'r BBC yn rhannu nifer o egwyddorion sylfaenol

sydd wedi eu disgrifio yn y pwrpasau cyhoeddus ac felly nid dyletswydd S4C fydd cyflawni pwrpasau cyhoeddus ar ran y BBC, ond cyflawni pwrpasau craidd darlledu cyhoeddus.

- Roedd cymal 4 yn nodi'n yn glir y bydd S4C yn cadw unrhyw arbedion a wneir ar gyfer ail-fuddsoddiad yng nghynnwys S4C.
- Roedd y cymal yn ymwneud â newid y cytundeb hefyd wedi ei addasu i nodi y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn rheidrwydd, yn hytrach nag yn opsiwn, os yw'r partiön yn dymuno gwneud unrhyw newid sylweddol i'r cytundeb gweithredu.

1.3 **[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y cymal “in extremis” ym mharagraff 6.19.]

1.4 Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd y newidiadau canlynol i'r cytundeb gweithredu diwygiedig:

1.5 **Cyflwyniad**

Awgrymu newid i frawddeg olaf y paragraff olaf ond un a gosod “from the UK Government” rhwng “receiving funding” a “from other bodies”.

1.6 **Paragraff 2.18**

Cafwyd trafodaeth am y rhestr o genres ym mharagraff 2.18 ac mewn perthynas â'r ddarpariaeth gomedi, awgrymwyd dileu “some” o'r llinell olaf.

1.7 **Paragraff 4.4**

Awgrymwyd ychwanegu'r frawddeg ganlynol at ddiwedd paragraff 4.4: “The S4C Authority is accountable to Parliament for monies provided by DCMS”.

1.8 **[Crynodeb:** Cymeradwywyd y Cytundeb Gweithredu fel y mae neu gyda geiriad yn seiliedig ar yr argymhellion uchod i'w drafod gan y swyddogion ag Ymddiriedolaeth y BBC .]

Bydd y cytundeb gweithredu yn cael ei drafod gan Ymddiriedolaeth y BBC ar 17eg Ionawr ar gyfer ei gymeradwyaeth.